PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

75c | Rhif 435 | Ionawr 2021

Ar y ffordd t.13




Prosiect i artist t.7



Gwobr i Ruth Jên t.14



# Prysur yn y pandemig



Cylch Meithrin Rhydypennau



Cristingl Cylch Meithrin Trefeurig





Cylch Meithrin Pen-llwyn. Gweler t. 6

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY cetmorgan@yahoo.co.uk 07966 510195]
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

# dyddiadur

**Rhifyn Chwefror; Dyddiad cau** Chwefror 5, **Dyddiad cyhoeddi** Chwefror 17

**IONAWR 20** Nos Fercher Elfyn Llwyd yn trafod ei gyfrol Betws a'r byd; Cymdeithas y Penrhyn drwy Zoom am 7.30 - Cysyllter â'r Ysgrifennydd am fanylion cysylltu Ceris.Gruffudd@gmail.com

**CHWEFROR 17** Nos Fercher Cyfweliad gyda Karl Davies yn Foshan, China Cymdeithas y Penrhyn drwy Zoom am 7.30 - Cysyllter â'r Ysgrifennydd am fanylion cysylltu Ceris.Gruffudd@gmail.com

**CHWEFROR 19** Nos Wener 'Noson y Llywydd – dan ofal yr Athro Gruffydd Aled Williams', Cymdeithas Lenyddol y Garn, am 7.30; cyfarfod dros Zoom – cysylltwch â'r ysgrifennydd i gael y manylion: marian_hughes@btinternet.com / 01970 828662. 'Ailystyried O. M. Edwards' – sgwrs rhwng Hazel Walford Davies a Gruffydd Aled Williams, am 7.30 o'r gloch dros Zoom. Manylion cysylltu: marian_hughes@btinternet.com

**MAWRTH 19** Nos Wener: Noson yng nghwmni Siân James am 7.30 o'r gloch dros Zoom. Manylion cysylltu: marian_hughes@btinternet.com

**MAWRTH 1** Dydd Llun Dydd Gŵyl Ddewi Ni chynhelir yr orymdaith arferol ond bydd cyfres o ddigwyddiadau amgen i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi yn Aberystwyth

**MAWRTH 4** Dydd Iau Diwrnod y Llyfr

**MAWRTH 19** Dydd Gwener Diwrnod Trwynau Coch

**MAWRTH 19** Nos Wener 'Noson yng nghwmni Siân James', Cymdeithas Lenyddol y Garn, am 7.30; cyfarfod dros Zoom – cysylltwch â'r ysgrifennydd i gael y manylion: marian_hughes@btinternet.com / 01970 828662

**MAWRTH 21** Dydd Sul Diwrnod Cyfrifiad 2021

## Côr Cymru

Erbyn hyn, mae'r penderfyniad wedi ei wneud gan S4C i ohirio cystadleuaeth Côr Cymru 2021 tan 2022. Y gobaith yw cynnal y gystadleuaeth fel a ganlyn:

**Chwefror 18-20 2022**
Rowndiau Cyn-Derfynol
**Ebrill 2il 2022**
Ffeinal Côr Cymru Cynradd
**Ebrill 3ydd 2022**
Ffeinal Côr Cymru

Daw mwy o fanylion yn y man.

## Newyddion cyffrous ar ddiwedd blwyddyn anodd…

Mae prosiect côr rhithwir 'yn un rhith' lle roedd Corau ABC, (Aberystwyth) a Côr Dinas, côr merched Cymry Llundain, wedi bod yn cydweithio ar brosiect i baratoi perfformiad cyntaf darn newydd a ysgrifennwyd gan y cyfansoddwr, Andrew Cusworth, yn ystod yr wythnosau cyntaf ar ôl cyflwyno'r cyfyngiadau symud wedi ennill gwobr Canmoliaeth Uchel yn y categori Prosiect Cyfnod Clo – Côr yng Ngwobrau Cerddoriaeth Glasurol Ddigidol 2020!

Llongyfarchiadau mawr i'r cyfansoddwr ac arweinydd y prosiect, Andrew Cusworth, ac i weddill y tîm – Dafydd John Pritchard, Robert Russell a Gwennan Williams. Gellir gweld mwy am y prosiect fan hyn: https://ynunrhith.cymru

## Cân i Gymru

Cyhoeddwyd y bydd Cân i Gymru yn cael ei ddarlledu o Ganolfan y Celfyddydau Aberystwyth eto eleni yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth. Bydd y caneuon yn chwarae ar Radio Cymru ynghanol mis Chwefror.



# 30 MLYNEDD YN OL



Y dynion yn cloi'r blygain yn Eglwys St Ioan, Penrhyn-coch trwy ganu Carol y Swper. Llun: Hugh Jones (o'r *Tincer* Ionawr 1991) Dyma'r blygain gyntaf dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn i'w chynnal ym Mhenrhyn-coch. Gweler hefyd t.8 ac 13

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Rhagfyr 2020

**£25** (Rhif 40) Menna Davies, 11 Maesafallen, Bow Street
**£15** (Rhif 278 ) Susan Williams, 38 Heol Aberwennol, Y Borth
**£10** (Rhif 247) Stephen Williams, Llys y Coed, Penrhyn-coch

Fe dynnwyd y rhifau buddugol yng nghartref y trefnydd oherwydd y cyfyngiadau presennol.

Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch gwybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com. Diolch i bawb sydd wedi ail ymuno.

**RHODD**
Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

**£30** Di-enw

## Cyfarfod Papurau Bro Cymru

Mae yn arfer gan bapurau bro Cymru gyfarfod unwaith y flwyddyn – y blynyddoedd diwethaf yn Llety Parc. Yno fel arfer trafodir materion cyffredinol, ariannol ac mae yn gyfle i rannu arferion da a thrafod dulliau o gydweithredu. Gan nad oedd hynny yn bosibl eleni trefnwyd cyfarfod cyffredinol ar gyfer yr holl bapurau bro trwy Zoom nos Iau, Rhagfyr 17eg am 7yh; gwahoddwyd y darlledwr Huw Edwards BBC fel gwr gwadd. Bu'n son am ei atgofion a'i brofiadau o fod yn ohebydd ifanc ac fel roedd lle pwysg oi newyddion lleol a thrwy hynny y papurau bro.

Yn anffodus roedd y dyddiad yn cyd-daro â phlygain Penrhyn-coch olygai fod tri o'r Pwyllgor yn methu bod yn bresennol ond fe'i mynychwyd gan ein ysgrifennydd – Iona Davies.

Adroddwyd yn y cyfarfod hefyd y byddwn yn trefnu cwrdd eto yn y flwyddyn newydd yng nghwmni Emlyn o Gwe Cambrian sydd yn dylunio gwefan i'r papurau bro a mewnrwyd at ddefnydd y papurau lle y gall y papurau rannu syniadau a chynnwys.

## DOLAU

**Diolch**
Dymuna Dafydd Evans, Madryn ddiolch i bawb am eu cyfarchion ar achlysur ei ben blwydd arbennig.

**Marwolaeth**
Trist ydyw cofnodi marwolaeth Robin Evans, Dolwerdd ar 8 Ionawr. Nid oedd wedi byw yn y Dolau ers cyfnod, gan ei fod angen gofal parhaol. Yr oedd wedi symud i ardal Llanelli i fod yn agos i'r ferch a'i theulu. Estynnwn ein cydymdeimlad gyda hwy. Cynhelir ei angladd yn Amlosgfa Aberystwyth ddydd Gwener, 22 Ionawr.

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

# Y BORTH

**Anrhydedd Flwyddyn Newydd**

Llongyfarchiadau i Helen Refna Williams o'r Borth ar dderbyn BEM yn Anrhydeddau Flwyddyn Newydd y Frenhines am wasanaethau i rieni ifanc bregus ac i'r henoed yn Borth yn ystod Covid-19.

Helen a sefydlodd Ganolfan Deuluol y Borth ac mae wedi profi i fod yn adnodd cymunedol gwerthfawr a phwysig, gan ddarparu cefnogaeth i les rhieni ifanc a thrigolion oedrannus yn y Borth a'r cylch ehangach yn ystod y pandemig.

Roedd hi wedi sefydlu grŵp rhieni a phlant bach yn gyntaf yn 2007 a oedd yn cyfarfod unwaith yr wythnos yn neuadd y pentref. Ond gwelodd bod yna le hefyd am ganolfan gynghori i ddarparu sgiliau magu plant da a chynnig cefnogaeth i deuluoedd mewn angen.

Datblygodd ei gwaith gyda'r grŵp ac fe sefydlodd Canolfan Deulu y Borth ar Ffordd Clarach, gan sicrhau statws elusennol yn 2008.

Trwy gydol argyfwng Covid-19 mae Helen a'r elusen wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r rhieni a'r henoed sy'n edrych at y Ganolfan am gefnogaeth, gan flaenoriaethu'r sawl sy'n byw ar eu pennau eu hunain neu'n gofalu am bartner a'r rhai sy'n cysgodi.

Wrth ymateb i'r newyddion, dywedodd Helen bod yr anrhydedd yn un hollol annisgwyl a'i fod yn gydnabyddiaeth o waith pawb oedd yn gysylltiedig â'r elusen.

**Danteithion Dolig**

Cyn y cyfnod clo diweddaraf ar 20 Rhagfyr, cafodd Bocsys Nadolig a Te Pnawn Nadolig eu danfon gan elusen Canolfan Deulu y Borth at 30 o bobl oedrannus y gymuned.

Hoffai'r Ganolfan ddiolch i bawb fu wrthi'n gwneud cardiau, addurniadau, catwad a nwyddau Nadoligaidd eraill ar gyfer y bocsys.

Diolch arbennig i Catriona Yula am y cacennau a'r danteithion blasus ac i'r gwirfoddolwyr fu'n helpu gyda'r gwaith o ddosbarthu'r bocsys yn lleol - Carol, Rob a Delyth, Mark, Oliver, Catrin a Anna.

Diolch hefyd i CAVO am gefnogi'r prosiect gyda chyllid o'u cronfa COVID.



**Y Cynghorydd Delyth Price Jones a Rob Hunt yn mynd a bocsys Nadolig i henoed y Borth.**

**Cydymdeimlad**

Pob cydymdeimlad i deulu Joyce Berryman a fu farw yn 98 oed ac i deulu Margaret Jones a fu farw ym mis Rhagfyr. Roedd y ddwy wedi byw ers sawl blwyddyn yn Borth Uchaf, yn naill yn Ffordd Francis a'r llall yn Ffordd y Fulfran. Trist iawn hefyd oedd clywed y newyddion am farwolaeth Paul Thomas yn Ysbyty Bron-glais yn fuan cyn ei ben-blwydd yn 60 oed. Bu'n byw yn y Borth am nifer o flynyddoedd cyn symud i Gapel Bangor ac roedd yn gyrru tacsi wrth ei waith.

## Ail grant i brosiect celf

Mae grŵp celf lleol wedi derbyn grant arall i barhau gyda'r gwaith o ddarparu pecynnau gweithgaredd celf ar gyfer pobl fregus ar draws Ceredigion sy'n hunan ynysu.

Dyfarnwyd ail grant o £4,638 i grŵp **Celf Mewn Iechyd - Haul** gan Gronfa Gwytnwch Coronafeirws Sefydliad Cymunedol Cymru, a hynny'n ychwanegol at grant o £5,000 a roddwyd y llynedd.

Dau artist o'r Borth – Stuart Evans a Martine Ormerod – sy'n paratoi'r gweithgareddau ar gyfer 30 o bobl fregus y sir.

Maen nhw wedi cynllunio llyfryn dwyieithog yn cynnwys ystod o weithgareddau celf i'w dilyn ac mae'r rhain yn cael eu hanfon ynghyd â deunyddiau celf.

Dywedodd Bryn Jones o'r Borth, sy'n un o gyfarwyddwyr Haul: "Mae'r ymateb wedi bod yn anhygoel ac mae pawb yn Haul wrth eu bodd bod Sefydliad Cymunedol Cymru wedi rhoi mwy o arian i ni barhau y prosiect tan fis Mawrth.

"Mae'n amlwg iawn i pawb yn Haul fod pobl ar draws Ceredigion yn gwerthfawrogi'r cyfle i fod yn greadigol a bod yn rhan o brosiect sydd hefyd yn creu cyfle i gysylltu â phobl eraill. I fi, mae hyn yn dangos grym y celfyddydau i gyrraedd rhai sydd efallai yn ynysig ac yn fregus yn ein sir ni yn ogystal a dangos sut mae'r celfyddydau'n gallu cefnogi ein hiechyd a'n lles."

Cafodd grŵp Haul eu sefydlu 20 mlynedd yn ôl yng Ngheredigion, gyda'r nod o ddefnyddio'r celfyddydau mewn unrhyw ffordd posib er mwyn cefnogi iechyd a lles trigolion.





**Enghreifftiau o'r gwaith celf sydd wedi'i greu fel rhan o brosiect arbennig gan fudiad HAUL yn ystod cyfnod cyfyngiadau Covid-19.**

**Priodas**

Llongyfarchiadau mawr i Rachel Edwards – merch Gwenda a Derek, perchnogion siop Nisa yn y Borth – a Matt Kemp a briododd yn Llundain ychydig cyn y Nadolig. Cafodd Rachel ei magu yn Aberystwyth, gan fynychu ysgol Plas-crug ac yna Pen-glais. Aeth yn ei blaen i astudio ym Mhrifysgol Manceinion ac mae nawr yn byw yn Llundain.

**Dyweddiad**

Llongyfarchiadau i Sophie Elwood a Jac Morris ar eu dyweddiad ym mis Rhagfyr. Cyfarfu'r ddau yn 17 oed pan oedd Sophie ar ei gwyliau yn y Borth. Mae ganddyn nhw fab bach dwy oed o'r enw Oscar ac maen nhw'n disgwyl eu hail blentyn yn yr haf. Eu bwriad yw priodi yn ystod 2022.

**Nofio Gŵyl San Steffan**

Er nad oedd modd i aelodau grŵp Amnest Rhyngwladol y Borth ddod at ei gilydd i nofio yn y môr ar ddydd San Steffan yn ôl eu harfer, gofynnwyd i bobl barhau i gefnogi'r achos drwy gyfrannu arlein. Mae'r grŵp wedi llwyddo i godi dros £300 ers sefydlu'r gronfa ddigidol yn sgil cyfyngiadau Covid: https://www.justgiving.com/crowdfunding/amnestyborth

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 17 Tachwedd ar y we. Cadeiriwyd gan Delyth James, y Cadeirydd, ac roedd y cynghorwyr Mel Evans, Shân James, Tegwyn Lewis, Dai Mason, Richard Owen, Gwenan Price ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Roedd ymddiheuriadau wedi'u derbyn gan Edwina Davies ac Iona Davies.

Cynllunio: adroddodd y Cynghorydd Dai Mason fod y cais ar gyfer tri pod campio ym Mhenrhiwnewydd wedi cael ei dynnu'n ôl.

Materion eraill: dywedodd Delyth James ei bod o'r farn fod angen rhyw fath o olau ar y llwybr beicio/cerdded o'r Penrhyn i Gogerddan. Roedd Eirian Reynolds o'r farn fod angen man croesi swyddogol o flaen yr ysgol gynradd, a hefyd wrth ddod allan o Ger-y-llan gyferbyn â'r Swyddfa Bost. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir am y ddau fater. Adroddwyd fod cerbydau (dwy fan fawr) yn parcio ac yn achosi rhwystr gyferbyn â'r Swyddfa Bost, a hefyd fod un o loriau cwmni Mansel Davies yn parcio yn y man pasio gyferbyn â chapel Horeb. Penderfynwyd y dylid cysylltu gyda Chyngor Ceredigion a chwmni Mansel Davies.

Ni chynhaliwyd cyfarfod ym mis Rhagfyr. Y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar 19 Ionawr 2021 ar y we.

# Cwis Flwyddyn Newydd y Borth

Mae Stuart Evans hefyd wedi llunio cwis arbennig er mwyn cefnogi gwaith Amnest Rhyngwladol. Does dim gwobrau ond mae cwis bob amser yn hwyl, yn enwedig mewn cyfnod clo. Ac os oes modd i chi gyfrannu £5 tuag at yr achos, byddai hynny'n cael ei werthfawrogi'n fawr: https://www.justgiving.com/crowdfunding/amnestyborth

1. Pa ysgol i fechgyn wnaeth symud i'r Borth am 14 mis yn 1876?
2. Sawl gwobr y mae criw bad achub RNLI y Borth wedi'u derbyn?
3. Ymha flwyddyn y cafodd Amgueddfa Gorsaf Reilffordd y Borth ei hagor?
4. Pryd gafodd cynhyrchiad theatre gymunedol 'Borth Begin' ei gynnal?
5. Pwy ysgrifennodd 'A String in the Harp', stori i blant wedi'i lleoli yn y Borth?
6. Pa eitem yn dyddio nol 4,000 o flynyddoedd gafodd ei darganfod ar draeth y Borth ym mi Ebrill 2016?
7. Achoswyd llifogydd mawr yn y Borth gan Storm Imogen. Ymha flwyddyn?
8. Ar ffurf pa aderyn mae'r ddarllenfa yn Eglwys Matthew yn y Borth?
9. Capel oedd adeilad Libanus yn y Borth cyn ei droi yn sinema. Ond i ba enwad roedd yn perthyn?
10. Beth bu'n rhaid ei symud yn dilyn storom yn y Borth yn 1983?

Atebion ar dudalen 11


**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com

Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**

Perchennog: Lawrence Kelly

AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr

Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch siop drwyddiedig

01970 828312

GWASANAETH CYFIEITHU

Linda Griffiths

Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ



01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

**R.J.Edwards**

Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch

Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân

01970 820149
07980 687475

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

*Crefftau Pennau*

*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*

*Ar agor*
*Llun-Sadwrn*

Brecwast ar gael

01970 820 050

Pennau

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Geni ŵyr**
Llongyfarchiadau i Mair ac Alun Jenkins ar enedigaeth ŵyr bach, Dewi Glyn, yn ddiweddar - mab i Aled a Kathryn.

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol i Evan Gordon, Capel Bangor ar ei ddyweddiad â Harriet Billingsley, Dôl-y-bont adeg y Nadolig.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Sian a Cefin Evans, Cwmwythig, ar farwolaeth mam Sian - Tegwen Lewis o Benegoes - ar 13 Rhagfyr.

**Ffarwelio a Chroesawu**
Cyn troad y flwyddyn bu i ni fel ardal ffarwelio ag Angharad ac Islwyn Jones, Tawelfan, wrth iddynt ymgartrefu yn Erw Goch, Waunfawr. Byddwn yn gweld eu heisiau yn fawr gan inni dreulio blynyddoedd hapus yn eu cwmni yma ym Mhen-llwyn. Dymunwn y gorau iddynt yn eu cartref newydd, gobeithiwn na fyddant yn ddieithr ac y dychwelant i'n gweld o dro i dro.

Yn ymuno a ni yma drwy wneud Tawelfan yn gartref iddynt hwy mae Lee ac Elin, Lee yn symud lawr y ffordd o Goginan ac Elin yn enedigol o Dal-y-bont. Pob dymuniad da iddynt yn eu cartref newydd. Pan fydd modd cymdeithasu unwaith eto, cawn gyfle i'w croesawu yn bersonol go iawn i'r ardal.

**Newid Swydd**
Llongyfarchiadau i Cerys Humphreys, Ystrad, wrth iddi ddechrau ar ei swydd newydd fel Rheolwr Datblygu Gwasanaeth yn y maes Camddefnyddio Sylweddau gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Cyn hynny roedd yn gweithio i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys. Pob dymuniad da; gobeithio y byddi yn hapus efo'r Cardis y tro hwn!

**Cylch Meithrin Pen-llwyn**
Rydym wedi cael tymor tra gwahanol heb gyngerdd Nadolig a gorfod cau yn gynnar cyn y Nadolig cyn ein hymweliad â Sion Corn. Serch hyn, mae'r cylch wedi bod mor hwyliog ag erioed gyda'r plant yn gwir fwynhau eu hamser yn y Caban.

Cymerwyd rhan yn Niwrnod Plant Mewn Angen gyda'r plant yn gwisgo pyjamas i'r Cylch, cafwyd cinio Nadolig blasus wedi ei baratoi gan Miss Kathy, Ysgol Pen-llwyn, gyda pawb wedi gwisgo mewn siwmperi Nadolig.

Mae'r plant wedi mwynhau'r gwahanol weithgareddau yr ydym wedi baratoi ar eu cyfer ar hyd y tymor. Os yr hoffech ymuno â ni, cysylltwch â Kathryn Whittaker, Ysgrifennydd Aelodaeth ar moobag84@gmail.com. Rydym ar agor yn ystod tymor yr ysgol o ddydd Llun i ddydd Gwener 9yb -3yb.









**Ailwynebu**
Dyma lun o 'r ail wythnos o waith ailwynebu'r ffordd mawr ym Mlaengeuffordd. Edrychwn ymlaen at pryd cawn ryddid i'w defnyddio'n iawn.

GWE Cambrian WEB
Gwefannau Gwych o Gymru
Creu Gwefannau
Marchnata Digidol
Pecynnau Gofal Gwefan
a llawer mwy!
*Gwasanaeth Gymraeg*
Cysylltwch Heddiw
info@cambrianweb.com
01970 623 906

## Mae'r Cyfrifiad yn dod! Diwrnod y Cyfrifiad yw 21 Fawrth 2021

Arolwg unigryw sy'n digwydd bob 10 mlynedd yw'r Cyfrifiad. Rhydd ddarlun cyflawn o'r boblogaeth a chartrefi yng Nghymru a Lloegr. Fe fydd y data anhysbys yn medru helpu llywodraethau o bob haen a sefydliadau i bennu buddsoddiad mewn datblygiadau a gwasanaethau a fyddai o fudd i'ch cymuned megis trafnidiaeth, addysg ac iechyd. Mae'n bwysig nodi bydd y wybodaeth bersonol yn cael ei gadw yn hollol gyfrinachol am ganrif.

Mae Huw Davies yn cael ei gyflogi fel Rheolwr Ymgysylltu'r Cyfrifiad. Mae Huw yn gweithio yn eich cymuned chi ond hefyd yn ehangach, o fewn Ceredigion a Phowys. Fe fydd yn ceisio cysylltu gyda phobl yn y gymuned i drafod y cyfrifiad ac i ddarbwyllo y rhai hynny sydd yn bryderus neu yn wrthwynebus bod llenwi ffurflen y cyfrifiad yn hawdd, bod help i'w gael a nad oes rheswm i beidio ei gwblhau.

Os ydych am gysylltu gyda Huw, ffoniwch ar 07452 945860 neu ar ebost ar gareth.davies82@field.census.gov.uk . Y mae Huw yn barod i gwrdd yn rhithiol â grwpiau neu gymdeithasau i gyflwyno a siarad am y Cyfrifiad.

# LLANDRE

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau i Steffan Nutting, Llys Newydd, Taigwynion ac Aisha ar eu dyweddiad yn ddiweddar.

**Pen blwydd arbennig**
Llongyfarchiadau i Gwyneira Williams, Gwyndy, Llandre ar ddathlu ei phen blwydd yn 70 yn ddiweddar.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlo â Gwynfryn Evans a'r teulu, Y Ddôl, ar farwolaeth chwaer Gwynfryn - Tegwen Lewis o Benegoes ar 13 Rhagfyr.

**Dyweddio a dychwelyd**
Llongyfarchiadau i Rhun Penri, Gwyniarth, Taigwynion a Victoriad Conroy ar eu dyweddiad. Wedi cyfnod o fyw a gweithio yng Nghaerdydd mae Rhun wedi dechrau ar ei swydd fel athro yn Ysgol Gynradd Aberaeron. Dymuniadau gorau i'r ddau a chroeso nôl i Geredigion

**Priodas**
Llongyfarchiafau i Lisa Raw-Rees a Dafydd Brace Jones ar eu priodas yn Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn, ar ddydd Mawrth, 29ain Rhagfyr, 2020.



# DOL-Y-BONT

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol i Harriet Billingsley, Dolwar ac Evan Gordon, Capel Bangor ar eu dyweddiad adeg y Nadolig.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad â Sian Elin a'r teulu Bryndderwen ar farwolaeth modryb iddi yn Llanwnnen ddechrau Ionawr.

*Trefnwyr Angladdau*
**C T Evans**
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
**01970 820013**
*gwyn@ct-evans.co.uk*
**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Colli cymdeithasu**
Fel arfer ym mis Ionawr mae yna dipyn o hanes am y parti Nadolig blynyddol a noson canu carolau o amgylch yr ardal, ond eleni dim byd!!

Mae y parti yn gyfle i gyfarfod gyda pobl newydd sydd wedi symud i'r ardal a chyfarfod a babanod bach sydd wedi ei geni yn ystod y flwyddyn ac mae y flwyddyn olaf wedi gweld llawer o newid yn y cwm. Edrychwn ymlaen yn hyderus i'r flwyddyn hon gan obeithio y gallwn gwrdd yn gymdeithasol yn fuan.

**Consyrn cynghorydd**
Mae pobl yr ardal yn ddiolchgar i Rhodri Davies, ein cynghorydd Sir, am ei gonsyrn amdanom yn ystod y misoedd diwethaf. Mae ei sylwadau bron yn ddyddiol ar y cyfryngau cymdeithasol yn dod a gwen ac yn cadw ni mewn cysylltiad â'r byd. Diolch o galon.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Alice Briggs, Y Capel Aber-ffrwd, ar gael ei dewis i gymryd rhan yn rhaglen Cymdeithas G39 i artistiaid dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae hyn yn ei galluogi i dreulio mwy o amser ar ei gwaith artistig a datblygu rhaglen atgofion y pridd sydd yn canolbwyntio ar dirlun mynyddoedd y Cambria, ffermio a chymunedau Ceredigion mewn partneriaeth â phrosiectau Bwyd Dros Ben a O'r mynydd i'r môr. Mae y prosiect yma yn unigryw i Gymru a dim ond pum person dros y wlad gafodd y gwahoddiad i ymuno. Dymuniadau gorau i ti ac edrychwn ymlaen i glywed mwy yn y dyfodol.

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau i David Davies, Troedrhiwceir, ac Angharad Spence-Wilson ar eu dyweddiad. Dymuniadau gorau i chi i'r dyfodol.





# PENRHYN-COCH

**Ennill hamper**

Llongyfarchiadau i Glenys Morgan, Tir-y-dail, enillodd gystadleuaeth hamper Hybu Cig Cymru ar y cyd gyda'r Sioe Aeaf rithiol ac i Glenys Howells, Rhyd-y-gof, ar ennill croesair y cylchgrawn *O'r Pedwar Gwynt*.



**Plygain**

Cafwyd plygain pur wahanol eleni nos Iau 17 Rhagfyr wrth i'r covid effeithio ar bopeth. Gwahoddwyd cantorion i unai ganu yn fyw trwy Zoom neu yrru fideo ohonynt eu hunain yn canu ymlaen llaw. Mae'r Parchg Lyn Lewis Dafis bellach yn hen law am drefnu cyfarfodydd ar Zoom a diolch yn bennaf iddo ef llwyddwyd i gynnal plygain mor debyg ag y gellid i'n un arferol ni.







Roedd hon y 30ain i'w chynnal. Gweinyddwyd gan y Parchg Lyn Lewis Dafis a darllenwyd y llith gan Delyth Ralphs. Cymerwyd rhan gan blant Ysgol Penrhyn-coch, Clwb Sul Horeb, Parti'r Penrhyn, Rhiannon a Trefor, Linda Griffiths, Cantorion Aberystwyth, Triawd Penrhiw (Llandeilo), Angharad Fychan, Brenda a Meinir, Rhun a Lowri Emlyn. Defnyddiwyd recordiad sain o un o blygeiniau'r gorffennol ym Mhenrhyn-coch i chwarae'r emynau cynulleidfaol a Charol y Swper. Anogwyd y gynulleidfa ( roedd dros 100 cartref wedi ymuno) i gyfrannu i Elusennau Iechyd Hywel Dda.
Dyma un o dair plygain rithiol y clywyd iddynt gael eu trefnu eleni – bu rhai hefyd yn Llanfairpwll (noswyl Nadolig) a Gwaelod-y-garth (10 Ionawr). Yn ogystal trefnwyd dwy gan Fenter Maldwyn gyda chydweithrediad Trac Cymru – darlledwyd y rhain ar dudalen Facebook Mentrau Iaith Cymru a sianel Youtube Trac Cymru.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Selwyn Evans, Kairali, ar ddod yn dad-cu eto – ganwyd merch fach – Mollie Rosemary Evans i Joseph a Gwyneth Evans ar ddydd Calan – 1 Ionawr 2021. Chwaer fach i Annie a Daniel.

**Artist lleol**


Mae artist ifanc sydd yn byw ym Mhenrhyn-coch yn un o'r artistiaid ifanc sydd gydag arddangosfa o'u gwaith ar hyn o bryd ym MOMA, Machynlleth – er, yn anffodus fod yr adeilad ar glo. Mae Guto Morgan a'i wraig Natallia yn byw yng Nglan Seilo, Penrhyn-coch ac wrth eu bodd yn byw yn y pentref. Mae Guto – ddaw o Ffair-rhos - yn gweithio i Adran y Gymraeg y Bwrdd Iechyd ac ar ôl gadael Ysgol Uwchradd Tregaron astudiodd yn Ysgol Gelf Caerfyrddin. Mae'n gweithio'n bennaf â phaent olew ar gynfas ac ar fwrdd.

Yn ôl Gwenllian Beynon – uwch ddarlithydd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar Caron360

Graddiodd Guto gyda gradd Dosbarth Cyntaf mewn Celf Gain o Ysgol Gelf Glasgow ym mis Mehefin 2019. Mae'n gweithio gyda ffotograffiaeth, delweddu digidol, collage papur, darlunio a phaentio ac yn llwyddo i wneud ei farc yn y byd Celf. Mae wedi arddangos yng Nghaerfyrddin, Llundain, Glasgow ac ar hyn o bryd yn arddangosfa Artistiaid Ifainc Cymru/ Young Welsh Artists yn MOMA Machynlleth.

Roedd yr arddangosfa - agorodd ar yr 28ain o Dachwedd i fod i ddod i ben ar y 23ain o Ionawr, ond gan nad yw MOMA oherwydd y pandemig ar agor i'r cyhoedd ar hyn o bryd ymestynnwyd y cyfnod hyd y 10fed o Ebrill. Ond mae yn dibynnu a fydd hawl gan y Ganolfan hawl i agor cyn hynny.

Mae modd cael hanes yr




arddangosfa a gwaith yr artistiaid ifanc eraill sydd yn yr arddangos ar y cyd â Guto ar y we  ac ar Instagram Artistiaid Ifainc Cymru.

Yn ei beintiadau mae Guto yn cyflwyno i ni 'elfennau mewnol domestig ... ynghyd ag agweddau personol, gweddillion lleoedd ac amser.' A fedrwn ni'r gwylwyr weld hyn yn glir a hynod o ddiddorol yn y peintiad Plet. Prif themâu celf Guto yw gofod a lle (Space and place).

Mae edrych ar ofod trwy lygaid artist yn hynod o ddiddorol a gwelir ym mheintiadau Guto nid yn unig y lleoliad, yr ystafell ond hefyd y gofod, y gwagle, y lle o amgylch y siapiau a'r cysgodion sydd yn creu dyfnder a falle dimensiwn arall i fynd iddo.

Mae modd gweld Gwaith celf Guto ar ei wefan https://www.gutomorgan.com  neu ar ei **Instagram Guto Morgan**

Eto, yn ol Gwenllian "Yn bersonol, rwy'n cofio gwaith Guto tra oedd





**Aelodau Clwb Sul Horeb recordiodd eu cyfraniad i'r gwasanaeth Nadolig y tu allan i'r capel. Yn anffodus methwyd cynnal y gwasanaeth oherwydd y cloi. Chwaraewyd y carolau yn y blygain a darlledwyd darn ar Newyddion S4C i ddangos enghraifft o weithgareddau drefnir dros y cyfnod.**

yn yr ysgol gynradd ym Mhontrhydfendigaid ac yn cofio ei allu i dynnu lluniau ac i beintio. Rwyf wedi dilyn ei yrfa hyd yn hyn ac yn falch iawn i weld ei waith yn datblygu ac yn cael ei arddangos. Trueni mawr yw gweld ein horielau ar glo ond serch dweud hynny mae modd cefnogi'r artistiaid trwy ymweld â nhw ar eu gwefannau cymdeithasau cymunedol."

Llongyfarchiadau i Guto ar gael ei ddewis i arddangos yn y sioe yma a phob llwyddiant iddo yn y dyfodol. Parhau mae ei lwyddiant- yn ddiweddar cafodd ei ddewis i arddangos ei waith yn Academi Brenhinol yr Alban mewn arddangosfa Young Contemporaries 2020 yng Nghaeredin.

**Arwyddwch y ddeiseb!**

Bu farw fy nhad i diwmor yr ymennydd yn 2017 ac rydw i, ynghyd â Ben Lake AS, yn annog unigolion i arwyddo deiseb yn galw am fwy o fuddsoddiad cenedlaethol mewn ymchwil tiwmor yr ymennydd.

Es i a dad i Bron-glais bore dydd Sadwrn yn Ionawr 2016 gan feddwl ei fod wedi cael stroc. Darganfuwyd yn ddiweddarach yn y diwrnod fod ganddo diwmor yr ymennydd a hwnnw'n derfynol – glioblastoma gradd 4. Roedd yn 72. Ar ôl ymddeol o'r diwydiant coedwigaeth ar ôl dros 50 mlynedd, cafodd waith fel porter ym Mron-glais ac roedd yn dal i weithio'n llawn amser ac yn mwynhau bywyd.

Roedd y diagnosis yn sioc i bawb ac roeddem fel teulu mewn sioc. Cafodd dad lawdriniaeth ynghyd a cemotherapi a radiotherapi i ymestyn ei fywyd.

Dechreuais ymchwilio ymhellach a darganfod cyn lleied o arian oedd yn cael ei fuddsoddi mewn ymchwil tiwmor ar yr ymennydd a nad oedd fawr o ymchwil yn cael ei wneud nag opsiynau triniaeth ar gael i gleifion:

Yn anffodus bu farw dad ym Mawrth 2017. Datblygais ddiddordeb yn y pwnc ar ôl clywed fod Dame Tessa Jowell, cyn aelod seneddol a gweinidog diwylliant, yn ymgyrchu i gael newid i ariannu triniaeth ac ymchwil y cyflwr, ar ôl iddi hithau gael diagnosis o glioblastoma gradd 4.

Dechreuais ddilyn ymgyrch elusen Brain Tumour Research i sicrhau ychwaneg o fuddsoddiad i'r ymchwil. Mae £500 miliwn yn cael ei wario ar ymchwil cancr yn y DU bob blwyddyn a llai na 3% yn cael ei wario ar diwmor yr ymennydd.

Ysgrifennais at Ben Lake, AS Ceredigion, ym mis Hydref yn gofyn iddo fod yn bresennol yn yr 'All-Party Parliamentary Group on Brain Tumours (APPG-BT)' a sefydlwyd yn 2005 i godi ymwybyddiaeth yng nghymuned tiwmor yr ymenydd.



Mae gofalu fod aelodau seneddol fel Ben Lake ac eraill yn cadw proffeil ymchwil i diwmor yr ymenydd yn uchel ar yr agenda gwleidyddol, fel na fydd teuluoedd eraill yn gorfod dioddef y torcalon sy'n dod law yn llaw a diagnosis fel hyn. Mae'r 'All Party Parliamentary Group on Brain Tumours' yn trafod nifer o faterion yn ymwneud a thiwmor yr ymenydd, ac un o'r materion yma ydy gweithio er mwyn sicrhau fod ymchwil yn parhau. Rydw i yn annog unigolion i gefnogi ymgyrch diweddaraf Brain Tumour Research, drwy arwyddo'r e-ddeiseb, er mwyn sicrhau fod yna fuddsoddiad mewn ymchwil, sydd yn holl bwysig.

"Ar ôl clywed am golled sydyn Cerys a'i theulu a'r diffyg opsiynau triniaeth oedd ar gael i'w thad, teimlwn ei bod yn ddyletswydd arnaf i ymuno â'r 'All-Party Parliamentary Group on Brain Tumours' i ddysgu mwy am y cyflwr dinistriol hwn ac i weld sut y gallwn gefnogi'r ymgyrch bwysig i sicrhau rhagor o fuddsoddiad ym maes ymchwil tiwmor ar yr ymennydd.

"Mae'n frawychus meddwl bod gennym ni cyn lleied o ddealltwriaeth gwyddonol am y cyflwr. Y gwirionedd yw bod gwaith ymchwil ar y cyflwr wedi dioddef diffyg buddsoddiad ers degawdau, ac o ganlyniad, yn wahanol i fathau eraill o gancr, mae'r tebygolrwydd o oroesi'r cancr hwn yn isel iawn ac mae'r opsiynau triniaeth yn gyfyng iawn.

"I mi, mae'n amlwg bod angen i Lywodraeth y DU fuddsoddi ar frys ym maes ymchwil i diwmorau ar yr ymennydd, fel y gallwn adeiladu gwell seilwaith ymchwil a chynyddu'r opsiynau triniaeth i gleifion. Gofynnaf i chi ymuno â mi a chefnogi'r ymgyrch bwysig hon drwy arwyddo'r ddeiseb sy'n galw am fwy o fuddsoddiad cenedlaethol mewn ymchwil tiwmor yr ymennydd."

Arwyddwch y ddeiseb yma: https://www.braintumourresearch.org/campaigning/brain-tumour-research-petition#signnow

Cerys Humphreys

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad â Maureen Kinninmonth a'r teulu, Ger-y-llan, ar farwolaeth Dave Kinninmonth, ar Ragfyr 27. Yn frodor o swydd Fife yn yr Alban symudodd i Fachynlleth pan yn gweithio gyda'r GPO lle cyfarfu a'i wraig. Bu'n chwarae pêl-droed i Fachynlleth ac Aberystwyth Cynhaliwyd yr angladd ar Ionawr 12fed.

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

# Clwb Pêl -droed

Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch yn gwneud apêl am hen luniau o'r tîm a'r adeilad, dogfennau, rhaglenni yb i wneud arddangosfa. Gobeithir rhoi rhai o'r rhain i fyny ar waliau y Clwb. Os oes gennych eitemau addas byddai Andrew Curley yn falch pe bai modd i chi eu gadael yn y Clwb i'w sylw.

Hoffai'r Clwb ddiolch i Dil Wyn o Arwyddion Rebus am ei rodd garedig o arwydd newydd i'r Clwb.


Clwb Cymdeithasol Peldroed Penrhyncoch
Penrhyncoch F C Social Club
New Bar Steward
New Lighting & Seating
OPENING NIGHT
NOSON AGORED
Saturday 4 May 1996 at 8pm
Nos Sadwrn Mai 4 1996 am 8 o'r gloc
First Drink Free!
Diod cyntaf am ddim!
Free Live Entertainment & Disco!
Adloniant Byw + Disco am ddim!
Bar meals available/Bwyd bar ar gael
Come and join in the friendly atmosphere
Dewch i fwynhau yr awyrgylch gyfeillgar
Bar Newydd
Goleuadau + Addurniadau Ne
roeso i Bawb - Everyone Welcom






Eirian Reynolds,
Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

SIOP SGLODION
BOW STREET CHIPPY
4.30pm – 8.30pm
Mawrth – Sadwrn
Mae modd archebu o flaen llaw dros y ffôn
01970 820567

# Cwis Nadolig Y Tincer

## Diolch i bawb a gefnogodd y cwis eleni.

Pa weledigaethau a welodd Y Tincer oedd y sialens ac mi sylwodd y rhai craff ohonoch fod y Coronafeirws neu'r Cofid-19 wedi dylanwadu ar y gweledigaethau!

1. **Corona** oedd y diod yr oedd William sef William Evans yn ei roi mewn poteli yn Y Porth y Rhondda yn 1925.
2. **Côr y Brythoniaid** oedd yn sefyll o flaen yr ar-weinydd John Eifion.
3. **Cofi** oedd yn patro yng Nghaernarfon. Ond roedd **co** a **co bach** yn dderbyniol ac roedd yr ateb **cofi dre** gan un cynigydd yn dangos gwybodaeth ar-benigol iawn gan fod pobl Caernarfon yn gwaha-niaethu rhwng cofi dre a cofi gwlad!
4. **Coron** Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Conwy oedd ar ben Guto Dafydd yn Llanrwst ar bnawn llun y llynedd.
5. **Hanner coron** oedd y darn arian gwerth deuswllt a chwech yn 1960.
6. **Coron Driphlyg** oedd Cymru sef tîm Alun Wyn Jones newydd ei ennill. Dyddiau da!
7. **Corrach** oedd Walter sef 'Walt' Disney yn tynnu ei lun yng Nghaliffornia ar gyfer y ffilm Eira Wen a ddangoswyd gyntaf yn Rhagfyr 1937. Er bod tua 200 o arlunwyr wedi ei helpu hefyd yn ôl y sôn! Cynigiodd rai Mickey Mouse ond yn 1928 y creuwyd Mickey.
8. **Corwynt** oedd Y Tincer yn cysgodi oddi wrtho yn Louisiana.
9. **Cofio** oedd teitl y gerdd yr oedd Waldo Williams yn ei chyfansoddi.
10. **Corgi** oedd y ci bach ymddangosodd ar Netflix a hynny yn y gyfres The Crown.

Canmoliaeth i Nest Gwilym Caerdydd; Richard Huws Bont-goch; Ann Jones Ffordd Clarach; Wynne a Linda Jones, Llanfihangel Geneu'r-glyn, John G. Lewis, Llanbadarn Fawr a Mair Lewis, Maes Ceiro am atebion cywir. A'r enw ddaeth allan o'r het (gan ddilyn rheolau Llywodraeth Cymru ar y coronafeirws) oedd John G. Lewis, Cefnesgair, Llanbadarn Fawr. Felly, llongyfarchiadau arbennig i John ac anfonwyd £10 o wobr iddo.

**Diolch i Gareth William Jones am baratoi cwis eto eleni ac am ddarparu gwobr i'r enillydd.**

# Colofn Enwau Lleoedd

Bydd llawer ohonoch, fel finne, wedi treulio cryn amser yn crwydro'r ardal dros y misoedd diwethaf oherwydd y cyfyngiadau Covid-19. Er 'mod i wedi fy magu'n lleol ac yn hoff iawn o gerdded, rwy'n dal i ddod ar draws llwybrau a llefydd sy'n newydd i mi.

Un lle na fûm erioed ar ei gyfyl hyd yn ddiweddar yw *Banc y Gwmryn* (SN635820), bryncyn uchel sydd wedi ei leoli ar y gefnen rhwng dyffrynnoedd Peithyll a Rheidol, yn union i'r dwyrain o bentref Capel Dewi. Dafliad carreg ymhellach i'r dwyrain ar yr un gefnen mae fferm *Pengwmryn* (SN640820) yn swatio wrth war *Banc y Gwmryn*.




**Map 1:25000 yr Arolwg Ordnans c.1949**
**Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban (CC BY 4.0)**

Tan yr ymweliad hwn doeddwn i ddim wedi ystyried beth oedd tarddiad yr enw *Gwmryn*, er 'mod i'n hen gyfarwydd ag ef, ac yn ymwybodol iddo gael ei fabwysiadu fel enw personol yn ogystal. (Efallai mai'r mwyaf adnabyddus oedd R. Gwmryn Jones, gŵr genedigol o Gapel Dewi a fu'n weinidog gyda'r Methodistiaid ac a gyhoeddodd erthygl ar 'Ofergoelion Tafarn Magl' (hen enw Capel Dewi) yn y cylchgrawn *Cymru* yn 1896).
Felly, rhaid oedd ymchwilio i hanes yr enw.
Yn ôl *The Place-Names of Cardiganshire* (2004; t.1025), daw'r ddau gyfeiriad cynharaf o Hen Siediwl Stad Gogerddan yn y ffurfiau *Tythin-Dan-Allt-Gwynvrin* (1617-18; t.79) a *Tythin-Dan-Ael-y-Gwnvrŷn* (1627-28; t.99). *Pen y Gwynfryn* sydd gan Lewis Morris yn ei arolwg o gwmwd Perfedd yn 1744, gyda *Pen gwyn fryn* ar ei fap.




**Lewis Morris: *A plan of the Mannor of Perveth*, [1744]**
(http://hdl.handle.net/10107/1445616)
**trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

Yn annisgwyl braidd, ymddengys felly mai cyfuniad oedd yma'n wreiddiol o'r elfennau *gwyn* 'golau' a *bryn* 'codiad tir'. Yn raddol disodlwyd yr elfen *gwyn* gan y ffurf *gwn* (cymharer y modd y newidiodd *gwynnog* 'gwyntog' yn *gwnnog* yn yr enw *Hafodwnnog* yn Uwchygarreg, sir Drefaldwyn). Yna trodd yr *-nf-* yng nghanol yr enw yn *-mf-*, cyn troi'n *-m-* drwy golli'r *-f-*, i roi'r ffurf *gwmryn* sy'n gyfarwydd i ni heddiw.
Mae'n enw sy'n profi mor hawdd yw cael camargraff ar yr olwg gynta, a pha mor bwysig yw edrych yn ôl ar hen ffurfiau er mwyn gweld y darlun cyflawn.

**Angharad Fychan**

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**

RHYD-Y-PENNAU
COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion
01970 617120
Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru



**Atebion cwis Nadolig y Borth**
1. Uppingham. 2. Chwech. 3. 2011. 4. 31 Awst 2019. Nancy Bond. 6. Cyrn carw. 7. 2016. 8. Pelican. 9. Methodistiaid. 10. Y gof golofn.

Cadwch yn saff



# BOW STREET

**Pen blwydd arbennig**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i John Owen (John y Post) a fydd yn dathlu pen blwydd arbennig dechrau mis Chwefror.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlir yn ddiffuant â Mrs Beryl Bowen, 23 Maes Ceiro, ac â Catrin a`r teulu, ar golli modryb  annwyl yn Aberteifi.
Cydymdeimlwn â Marian a Iestyn Hughes, Maes y Garn, ar farwolaeth chwaer yng nghyfraith Iestyn – Margaret, gwraig ei frawd Llion – yn Sir Fôn ar Ragfyr 30ain.

Wythnos cyn y Nadolig a mis cyn ei ben blwydd yn 101 bu farw Walford Hughes, MBE, yng Nghartref Tregerddan. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i deulu.

**Diolch o galon**
Seiriol Dawes Hughes ( gynt o Faes y Garn) a Jamie oedd enillwyr y ~Tlws Diolch o galon un prynhawn ddechrau Ionawr ar raglen radio Ifan Jones Evans ar Radio Cymru. Cawsant eu henwe bu gan aelodau Côr Dre, Caernarfon, am gynnal ysbryd, trefnu cwisiau a chyfarfodydd ar Zoom dros y cyfnod presennol. Mae Seiriol yn gyfeilydd a yn un o swyddogion y Côr.

**Merched y Wawr**
Gair bach i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb gan obeithio y daw pethau`n well i ni yn ystod y flwyddyn.  Mae pethau yn edrych yn ddigon tywyll ar hyn o bryd a `does wybod pryd y byddwn yn medru cyfarfod yn gorfforol, dim ond gobeithio y bydd y brechlyn yn llwyddiant.  Yn y cyfamser cadwch yn ddiogel a cofiwch godi`r ffôn os bydd angen rhywbeth arnoch, Mair.

**Noddfa**
Bu popeth yn wahanol yn Noddfa fel ym mhobman arall dros y Nadolig a`r Calan yn sgîl yr argyfwng Coronafeirws. Trwy gyfrwng Zoom y cynhaliwyd ein gwylnos Noswyl Nadolig a hyn yn rhoi cyfle i gyfeillion o bell ac agos fod yn rhan o`r achlysur.  Cafwyd datganiad offerynnol gan Steffan (ŵyr Gareth a Gaenor) o Gaerdydd, darlleniadau gan rai o`r aelodau ac unawdau gan Anwen ac Arwel, ac fe gyhoeddwyd y fendith gan y Parchg Richard Lewis.

Wrth edrych ymlaen i fisoedd cyntaf 2021 yr ydym yn cymryd yn ganiataol na fyddwn yn cyfarfod yn gorfforol yn Noddfa yn y dyfodol agos, dim cyn y Pasg yn sicr, ac y byddwn yn parhau i gyfarfod trwy gyfrwng Zoom am 10.30 bob bore Sul yn y cyfamser.

**Capel y Garn**
'Ar ba anifail rhyfedd y teithiodd y doethion i Fethlehem?' Ateb: 'Camel-od!' 'Pa gi sydd ddim yn edrych ymlaen at y Nadolig?' Ateb: 'Twr-ci!' Dyna rai o hoff jôcs plant ysgol Sul yr ofalaeth, sy'n mwynhau dod at ei gilydd dros Zoom ar fore Sul, dan arweiniad Watcyn a Lowri James.

Fel arfer, bydd gwasanaeth i oedolion eglwysi Gofalaeth y Garn dros Zoom ar fore Sul, gydag ysgol Sul y plant yn dilyn. Ond ar 20 Rhagfyr, cafwyd oedfa Nadolig i'r teulu cyfan, a hyfryd oedd cael cwmni plant yr ysgol Sul a'u rhieni. Cafwyd darlleniad gan Elin a mwynhawyd jôcs gwreiddiol a dyfeisgar y plant.

Nos Sul, 20 Rhagfyr, cynhaliwyd 'Gwasanaeth y Gair a'r Geiriau', eto wedi'i drefnu gan ein gweinidog. Cymerwyd rhan gan nifer o'r aelodau, ar ffurf darlleniadau a gweddïau, a chafwyd cyfle hefyd i wrando ar nifer o garolau cyfarwydd.

Bore'r Nadolig, braf oedd gweld wynebau cyfarwydd dros Zoom yn ymuno mewn gwasanaeth byr i ddathlu Gŵyl y Geni, dan arweiniad y Parchg Watcyn James, ac ef hefyd a'n harweiniodd yn ein hoedfa ar Sul olaf y flwyddyn, ar 27 Rhagfyr.

Yn ystod cyfnod yr Adfent a hyd at yr Ystwyll, roedd golau seren i'w weld bob gyda'r nos yn ffenest Capel y Garn, yn symbol o oleuni a gobaith Gŵyl y Geni. Ar ôl gweld llun o'r golau hwn a golau'r seren ar goeden Nadolig Bow Street ar Twitter, lluniodd y llenor Annes Glynn gerdd amserol am Ŵyl y Nadolig 2020:

Taw sôn am ei chanslo
a'i lapio cyn pryd!
Cyfyngu ar lyshio a gwledda ynghyd.
Os fydd hi'n gaeedig,
saif seren a chrud
a gwyrth y Nadolig er gwendid y byd.



Dydd Sul cyntaf y flwyddyn newydd, ar 3 Ionawr, cafwyd gwasanaeth cymun bendithiol dros Zoom, eto dan arweiniad ein Gweinidog. Rydym fel eglwysi'n ddiolchgar iawn iddo am ei holl waith yn darparu ar ein cyfer dros y misoedd diwethaf hyn.

**Cymdeithas Lenyddol y Garn**
Yng nghyfarfod Rhagfyr 11eg, Heledd Ann Hall a Llinos Dafis fu'n cyflwyno noson yn naws y Nadolig ar lafar ac ar gân. Braf oedd gweld nifer dda wedi ymuno â ni eto – o bell ac agos dros Zoom– i fwynhau detholiad amrywiol o farddoniaeth a cherddoriaeth.

Cawsom ein tywys yn ôl i fyd y Ficer Rhys Prichard (1579?–1644) gan Llinos Dafis, a thrwy gyfrwng nifer o ddyfyniadau o'r gyfrol *Cannwyll y Cymry*, dangosodd gamp y Ficer yn gosod rhannau o'r Beibl ar fydr ac odl ar gyfer pobl ei oes. Ac mae'n rhyfeddol fod ein cenhedlaeth ninnau, 400 mlynedd yn ddiweddarach, yn dal i allu gwerthfawrogi neges oesol y cerddi hyn.


Taith gerddorol a gafwyd gan Heledd Ann Hall, gan ddechrau gyda Karl Jenkins a gorffen gyda medli o garolau cyfarwydd. Ar y daith hefyd cawsom flas o drefniannau gwahanol o garol werinol o'r Wcráin, y perfformiad cyntaf o 'Garol Eliseus' a gweithiau gan y cyfansoddwyr poblogaidd Eric Whitacre a John Rutter. Braf oedd cael cyfle i wrando ar garolau llai adnabyddus, a'r cyfan wedi'i gyflwyno a'i esbonio mewn ffordd mor ddifyr a deheuig gan Heledd. Daethpwyd â'r sesiwn i ben yn addas iawn drwy wrando ar garol Dafydd Jones o Gaio, 'Wele, cawsom y Meseia'.

Bydd ein gwasanaethau a'r Gymdeithas Lenyddol yn parhau i gyfarfod dros Zoom am y tro, ac mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni.

Mae'n syndod sut mae'r rhai sydd wedi mentro wedi cyfarwyddo â'r dechnoleg newydd a'r teimlad cynnes o gymdeithasu all ddod yn ei sgil. Os nad ydych wedi ymuno hyd yma, beth am roi cynnig ar y dechnoleg, sydd ar gael drwy gyfrwng cyfrifiadur neu dabled neu dros y ffôn – mae'n rhwydd iawn i'w defnyddio, a bydd croeso cynnes i chi. Am fanylion cysylltu, anfonwch air at: ymholiadau@capelygarn.org

**Cyfarchion Pen blwydd**
Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Mr Ken Davies, Y Frenni, Maes Ceiro, fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 95 ar y 29ain o Ionawr.  Cofion annwyl iawn atoch.

# Gorsaf Bow Street ddoe a heddiw



**Bydd trenau yn aros yn yr orsaf newydd o ddydd Sul 14 ymlaen. Disgwylir iddi gael ei hagor yn swyddogol ddechrau Mawrth.**



GORSAF RHEILFFORDD. Pan ddaeth y rheilffordd tua 1864 daeth yr Orsaf yn lle prysur gan fod popeth trwm, yn cynnwys sachau blawd a siwgr ar gyfer siopau bach y pentref, yn dod gyda'r trên. Un o'r meistri cynnar oedd gŵr o'r enw John Mitchard, a ddaeth yma gyda'i wraig a'i bedwar plentyn o Salisbury yn 1871. Yn 1881 gŵr o'r enw J.H. Thickens, o Efrog, oedd yma gyda'i wraig Harriet a dau fab, pump a dwy oed. Bu Mr Lewis Rees, tadcu Mr Emlyn Rees, Bod Owen, yn orsaf feistr am gyfnod o 1895 hyd 1926. Un o Eglwys-fach ydoedd a'i wraig o'r Borth. Gwnaethpwyd ef yn orsaf feistr yn Ynys-las i gychwyn cyn ei symud i orsaf fawr, brysur, Bow Street yn 1895. Roedd prysurdeb anghyffredin cyn 1914 pan ddeuai'r holl filwyr ar drenau arbennig. Rhaid oedd cael llawer o swyddogion ychwanegol fel y dengys y llun. Roedd prysurdeb mawr iawn hefyd pan oedd coedwig Rhydtir (sydd ar werth nawr) a Gogerddan yn cael eu torri i wneud props i'r ffosydd yn Ffrainc. Torrwyd a llwythwyd miloedd ohonynt. Ganed ei ferch, Miss Nellie Rees, Brynawelon nawr, yn Nhŷ'r Orsaf, a'i chwiorydd Gladys a Katie a dau frawd, Wilfred a David Owen (Tad Emlyn). Wedi ymddeol yn 1926 symudodd ef a'i deulu i Brynawelon, un o'r tai cyngor cyntaf a godwyd gan Gyngor Dosbarth Aberystwyth yn yr ardal, ac mae Miss Rees yn dal i fyw yno. Bu Mr Rees farw yn 1929.

Roedd iard lo brysur hefyd ar dir yr orsaf. Deuai'r glo mewn cerbydau mawrion ar y rheilffordd a byddai D.J. Morgan (mab y Parchg T.J. Morgan) yn dosbarthu peth ohono, a J.R. Hughes, Railway View, ac wedyn ei fab, Ifan Oliver Hughes, Cross Street, yn llwytho bagiau a'u gwerthu o dŷ i dŷ. Yn 1986 daeth MALDEN Timber i godi sied fawr yma yn gwerthu nwyddau adeiladu o bob math. Mae rhyw 15 yn gweithio yma. Yn anffodus, oherwydd diffyg tyfu coed o'i chwmpas, mae'r iard yma yn edrych yn flêr i bawb sy'n teithio heibio ar y briffordd.

**Eddie Jones**

*O golofn Hanes yr Ardal (Eddie Jones) (Tincer Rhagfyr 1990); diolch am ganiatâd y teulu i ailgyhoeddi.*



**Nodyn Eddie Jones.: Staff gorsaf Bow Street. Yng nghanol y rhes flaen mae Mr Lewis Rees, y gorsaf-feistr. Mr J R Hughes, gwerthwr glo, yw'r cyntaf ar y chwith o'r rhai sy'n sefyll, ac yn y cefn yn gwisgo ei het wellt mae Mr D J Morgan, gwerthwr glo. Nid wyf yn adnabod neb o'r lleill. Ydych chi?**

## Plygain

A hithau'n dymor y Nadolig, mae'n briodol i ni gael carol Nadolig yn y golofn hon y tro yma. Cawsom brofi o awen David Hamer yn y golofn hon eisoes a'r tro yma cawn gerddoriaeth ganddo'n ogystal. Bu'r *Tincer* yn holi Dr David Jenkins, Pernhyn-coch am fywgraffiad byr ohono, a dyma a ddywed:

Ganwyd David Hamer yn Bow Street ym 1868 yn fab i Daniel ac Elizabeth Hamer. Brodor o Gilcennin a dysgodd grefft masiwn (saer maen). Daeth i'r ardal hon i godi pontydd ar rheilffordd y Cambrian; ef a gododd bont Rhydhir, er enghraifft. Roedd ganddo bedwar mab a phrentisiwyd bob un yn fasiwn. Ohonynt hwy David oedd yr unig un i aros yn yr ardal ar ol priodi, ac fel ei dad aeth yntau i weithio'i grefft ar ystad Gogerddan. Roedd yn bur gerddorol a chyfansoddodd lawer iawn o ganeuon ysgafn i eiriau o'i waith ef – lawer iawn ar destunau lleol. Bu'n arweinydd cor yr eglwys a fu'n cystadlu'n fynych mewn eisteddfodau lleol. Collodd ei olwg blynyddoedd cyn iddo farw ym mis Mawrth 1954 yn 85 oed.

O golofn Encil yr Awen Huw Ceiriog (Tincer Rhagfyr 1990); diolch am ganiatâd.




inc

Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.

CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION

13 Stryd y Bont, Aberystwyth

01970 626 200

# Atebion Croesair

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 LL | 2 E | N | 3 O | R | | 4 H | 5 E | 6 U | L | 7 W | E | 8 N | |
| 9 E | I | | E | | 10 P | A | U | N | | Y | | 11 E | 12 F |
| 13 I | S | 14 A | D | R | A | N | | 15 D | 16 A | TH | L | U | |
| 17 A | T | I | | | 18 N | E | 19 M | O | R | | | 20 A | 21 M |
| 22 N | E | S | 23 A | 24 F | | 25 S | O | D | L | 26 I | | 27 DD | A |
| | DD | | 28 M | Y | 29 N | Y | DD | | 30 W | R | 31 TH | | N |
| 32 A | F | L | O | N | Y | DD | | 33 D | Y | L | E | 34 D | |
| 35 D | O | | 36 D | Y | DD | | 37 E | R | | 38 A | M | A | 39 U |
| 40 E | D | 41 N | | | 42 W | 43 Y | | 44 U | N | S | A | I | N |
| R | | 45 A | 46 N | 47 O | R | F | 48 O | D | | | | 49 O | S |
| 50 Y | 51 S | G | A | LL | | 52 E | L | W | | 53 Y | 54 N | N | I |
| 55 N | A | | I | | 56 A | D | W | Y | | 57 N | A | I | LL |
| | 58 E | 59 N | N | 60 I | LL | | Y | | 61 M | | W | | |
| 62 T | R | I | | 63 S | T | O | N | D | I | N | | 64 LL | W |






## MADOG DEWI / CEFN-LLWYD

**Pen blwydd**
Llongyfarchiadau i Aneurin Lewis Rowlands, Cwm Main, ar gyrraedd ei ddeunawfed pen blwydd ar 26 Ionawr.

**Symud ardal**
Dymuniadau gorau i Matthew Woolfall-Jones sydd wedi symud o Lodj Gelli Angharad i gyfeiriad yn Llanbadarn.





**Gwobr i Ruth Jên yn y #2Dathon**
Rhwng 26 Rhagfyr a 7 Ionawr cynhaliodd yr Eisteddfod Genedlaethol gystadleuaeth ddarlunio ar-lein, drwy gyfrwng Instagram a Twitter, yn ddilyniant i'r Adfent Amgen. Yr amcan oedd dilyn patrwm tebyg i'r ffotomarathon a gosod pum thema i'r cystadleuwyr ymateb iddynt, sef Egino, Adeiladu, Goleuni, Llonyddwch ac Ymestyn. Enillodd Ruth Jên y wobr ola' am y casgliad gorau o ddarluniau. Artist o ardal Trawsgoed - Teilo Trimble - enillodd y thema gynta'. Roedd chwe buddugol yn derbyn gwobr o £50.


SIOP
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

CIGYDD BOW STREET
01970 828447
Deli
BOW STREET BUTCHERS SHOP
Cigydd a delicatessen o safon arbennig
01970 828447 - Pendre, Bow Street, SY24 5BQ

Trydan
WILL DAVEY
Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Sain, Gweledol & Data
CCTV
Arolygu & Phrofi
NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH SY23 4EF
APPROVED CONTRACTOR
07581 173 684 / 01970 880593 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

# Canlyniadau Cystadleuaeth Cerdd y Tincer

Yn dilyn llwyddiant cystadleuaeth stori fer y Tincer ar gyfer disgyblion bl 5 a 6 y llynedd penderfynwyd eleni gael cystadleuaeth ysgrifennu cerdd ar unai y testun 'Agor drysau' neu 'Bore newydd'. Gwahoddwyd Twm Ebbsworth, Llanwnnen, i feirniadu – eisteddfodwr brwd ac enillydd prif wobrau Eisteddfodau Ryng-golegol a CFfI. Diolch iddo am fod yn barod ei gymwynas. Mae'r awen yn gryf ymhlith y disgyblion yma a daeth 27 cerdd i mewn. Mae Twm wedi gyrru sylwadau byr ar gyfer pob ymgeisydd yn y gystadleuaeth.

**Beirniadaeth**: Yn gyntaf mae'n rhaid i mi nodi cymaint o bleser oedd taro golwg dros yr holl gerddi. Roedd ymdrech pob ymgeisydd yn hollol amlwg ac yn arbennig, llongyfarchiadau mawr i chi gyd. Codwyd fy nghalon gan ba mor obeithiol oedd pob dehongliad o'r testunau, ac mae'r gobaith yma'n amserol iawn wedi blwyddyn mor anobeithiol. Y cerddi buddugol yw'r rhai sy'n arddangos elfennau unigryw tra'n trafod yr elfennau yma mewn modd aeddfed a chynnil - Twm Ebbsworth

Canlyniadau - tocynnau llyfr i

1 Elis, Ysgol Penrhyn-coch £15
2 Lleucu, Ysgol Penrhyn-coch £10
3 (cydradd) Gwenno Elfyn ac Enid (Ysgol Rhydypennau) £5 yr un



Elis


Lleucu


Gwenno


Enid

**Agor drysau**
Wrth godi ar y cyntaf o'r flwyddyn
yn llawn cyffro i ganu calennig,
bore oer a rhewllyd -
well i mi wisgo sgarff a menig.

Rhuthro allan i'r oerfel;
fy mochau fel bol robin goch,
lleisiau plant yn dawnsio ar y gwyn
o ddrws i ddrws yn canu pob cloch.

Traddodiad hen fel Taid;
gwynebau cyfeillgar tu ôl pob drws,
anfon cariad ar flwyddyn newydd
yn canu mewn lleisiau bach tlws.

Blwyddyn Newydd dda i chi,
ac i bawb sydd yn y tŷ,
dyna yw'n dymuniad ni
Blwyddyn Newydd Dda i chi.

**Elis Jenkins**, Ysgol Penrhyn-coch

**Elis** - Mae'r defnydd o gân y calennig fel clo yn un hynod o unigryw ac yn briodol iawn. Hoffaf hefyd fod dy gymariaethau, megis "fy mochau fel bol robin coch" yn dilyn yr un thema â'r gerdd sy'n creu naws gyson. Campus!

**Agor drysau**
Dyma ni unwaith eto yng nghanol
y cyfnod clo;
Cyn hir fe ddaw'r diwedd a chawn
eto fynd am dro.
Wedi'r holl unigrwydd cawn ddathlu
dweud "Helo!"
Dim mwy o ddal yn ôl, mae'r drysau'n agor
eto.

Pawb yn disgwyl 'mlaen i fynd i'r siop;
Popio'r prosecco a cael parti heb stop.
Cael gwared o'r mwgwd a fflipin zwm hefyd;
Cau'r drws ar glefyd a'i agor ar iechyd.

**Lleucu ap Llywelyn**. Ysgol Penrhyn-coch

**Lleucu** - Mae mydr dy gerdd yn gywrain ac felly mae'r odl yn effeithiol. Hoffais y llinell "cael gwared o'r mwgwd a fflipin zwm hefyd" gan fod y cyfuniad o ysgafnder chwareus a rhwystredigaeth, sy'n creu naws y gerdd, yn cyrraedd uchafbwynt yma. Campus!

**Agor drysau**
Ers i Covid ddod,
Mae'r drysau wedi cau,
Da ni'n aros adre,
Efo ddim byd i fwynhau.

Dim mynd i'r siopau,
Dim mynd i'r traeth,
Dim mynd i nunlle,
Ond does neb ar fai.

Gwisgo mwgwd,
Cwrdd â neb,
Cadw pellter,
Mae mor annheg.

Ond edrychwch ar yr ochr bositif,
Gallwch ddysgu sgiliau newydd,
Fel peintio neu arlunio,
Ysgrifennu a choginio.

Mae ddim mor ddrwg,
Fod y drysau wedi cau,
Mae rhai newydd yn agor,
Ac rwyf innau yn mwynhau.

Wrth groesawu'r flwyddyn newydd,
Rhaid cadw pethau mewn persbectif,
Agor gwneith y drysau,
Os dilynwn y rheolau.

**Gwenno Jones**, Ysgol Rhydypennau

**Gwenno** - Mae'r gerdd hon yn un aeddfed iawn wrth i ti ddefnyddio geirfa a thrafod neges gymhleth mewn modd creadigol. Mae cynildeb y llinellau yn dangos ymwybyddiaeth o farddoniaeth ac oherwydd hyn mae strwythur y gerdd yn efffeithiol. Campus!

**Agor drysau**
Clywais fod y drws yn cau -
Dydy ysgolion ddim am barhau.
Teimlais yn ofnus -
Dyma amser peryglus.

Clywais fod y drws yn agor;
Ar-lein bydd y dysgu rhagor
Teimlais yn hapus fy myd -
Cael ffrindiau eto ynghyd.

Clywais eto fod y drws yn cau -
Nid oedd "Blagur" am barhau!
Clywais eto fod y drws am agor -
Mae bywyd fel llanw a thrai y môr.

**Enid Evans**, Ysgol Rhydypennau
Blagur – Grŵp drama Arad goch fynychir ar foreau Sadwrn

**Enid** - Dyma fardd medrus sy'n hyderus yn defnyddio symbolau addas i gynrychioli teimladau, hoffaf y llinell "Mae bywyd fel llanw a thrai y môr" yn fawr iawn. Roedd dy ddewis i odli'n un dewr ond yn talu ffordd wrth i'r gerdd lifo'n fwy pleserus. Gwych!

# Ysgol Craig yr Wylfa

**Nadolig**
Rhwng pob dim, roedd cyfnod y Nadolig eleni'n dipyn tawelach nag arfer! Yn anffodus, ni fu modd cynnal y cyngerdd Nadolig arferol, ond fe barhaodd yr ysgol i fod yn lle hynod brysur. Aeth pob dosbarth ati'n frwdfrydig i greu cynhyrchion gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i greu ffilmiau ac animeiddiadau difyr a diddorol. Da iawn chi – plant a staff am eich dyfeisgarwch.

Ond roedd cyfle i ddathlu hefyd. Cafwyd cinio Nadolig blasus diolch i Wendy a'r criw nid yn unig ar gyfer y Nadolig ond ar hyd y flwyddyn hefyd. Fel y gwelwch o'r lluniau, roedd pawb wedi eu plesio'n fawr. Sylwch ar y darnau plastig ar ganol y bwrdd er mwyn cadw pawb yn ddiogel.

Un o uchafbwyntiau'r wythnos olaf oedd ymweliad gan rywun arbennig iawn! Tra bod y ceirw'n cael hoe, cyrhaeddodd Siôn Corn yr ysgol mewn trelar! Diolch yn fawr i'r teulu Jarvis am y goeden Nadolig urddasol hefyd.

Mae hi'n draddodiad bellach i roi'r cyfle i bawb wisgo eu siwmperi Nadolig yn y cyfnod yma. Roedd hi'n hyfryd i weld yr amrywiaeth gyda nifer o'r siwmperi'n goleuo ac y fflachio! Roedd hefyd yn gyfle i godi ymwybyddiaeth o waith elusen Achub y Plant ac yn gyfle da i atgoffa'r plant am amgylchiadau plant eraill ar draws y byd.

**Criw Cymraeg**
Cafodd y Criw Cymraeg syniad gwych cyn torri am wyliau. Trefnwyd cystadleuaeth ffotograffiaeth arbennig ar y thema "Rhywbeth Cymraeg neu Gymreig yn y Borth a'r Cyffiniau". Hoffwn i ddiolch yn fawr i Elin Crowley am feirniadu ac roedd hi'n canmol safon y ffotograffau'n fawr - https//elincrowleyprint.cymru. Diolch hefyd i Siop y Pethe ac i Siop Inc am y gwobrau hael.

1af – Iyla sy'n amlwg wedi bod yn brysur yn tyfu llysiau

2il – Harper sydd wedi cynnwys lliwiau cryf gyda'r Ddraig Goch yn llawn bywyd yn cyhwfan yn y gwynt.

**Ffarwelio**
Yn siomedig iawn bu'n rhaid ffarwelio gyda Mrs Elen Davies-Williams ar ddiwedd y tymor. Hoffwn fanteisio ar y cyfle yma i ddiolch o galon iddi am ei holl waith yn yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf. Bu'n dysgu yn Ysgol Craig y Wylfa ers sawl blwyddyn gan gyfrannu'n dda i sawl agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Rydym yn ddiolchgar iawn iddi am ei holl waith caled yn ystod y cyfnod yma.Un o'r anrhegion a gafodd Miss Davies-Williams oedd y paentiad hyfryd yma o bentref y Borth gan Miss Alison Griffiths fu'n cydweithio gyda hi yn y dosbarth.

Yn anffodus, oherwydd y cyfyngiadau presennol, bu'n rhaid i ni ffarwelio gyda Miss Davies dros TEAMS. Wrth ddymuno'r gorau iddi yn y dyfodol, rhaid cydnabod y bydd yn rhyfedd iawn yma heb Miss Davies gan obeithio y byddwn yn eich gallu eich gweld yn fuan yn y flwyddyn newydd. Trefnwyd anrheg iddi gan y Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r Ysgol.

**Carnifal Y Borth**
Llongyfarchiadau mawr i Chelsea am ennill cystadleuaeth arlunio. Mae dy lun yn edrych yn wych ar glawr y cylchgrawn.











# Ysgol Penrhyn-coch

Wel am fis prysur cafon ni nôl yn Rhagfyr! Er gwaetha'r sefyllfa roedd bywyd ysgol yn fyrlymus iawn gyda chefnogaeth ein cymuned gefnogol a chlos cafodd y disgyblion nifer o brofiadau hyfryd.

Bl1&2 - Da iawn i rai o blant y dosbarth am drio her yr wythnos ar y rhaglen 'Helo Shwmae' ar CYW. Roedd yn rhaid iddyn nhw ddysgu 'tounge twister' a'i ddweud yn gyflym!

Da iawn i Osian  Bl. 6 am gymryd rhan mewn perfformiad arbennig gyda cherddorion ifanc Ceredigion a cherddorion y West End of Wales.

**Disgyblion Cyfnod allweddol 2 ar 'Ffeil'**

Cafodd 6 disgybl gyfle arbennig i drafod eu teimladau am berfformio sioe nadolig rithiol eleni ar y rhaglen newyddion 'Ffeil' ar S4C -y criw oedd yn trafod eu teimladau a rhannu atgofion oedd Freya, Lleucu a Dylan o flwyddyn 5 a 6 ac yna Caio, Gruff a Twm o flwyddyn 3 a 4. Da iawn chi am rannu yn glir eich teimladau am gynnal sioe/perfformiad rithiol.

Llongyfarchiadau i Abigail Evans am dderbyn y 3ydd wobr am ysgrifennu cerdd am y Nadolig yng nghystadleuaeth ysgolion Ceredigion

**Dathliadau'r Wŷl**

Codwyd swm o arian tuag at elusen Achub y plant trwy wisgo ein siwmperi Nadolig

Cafwyd cinio Nadolig ardderchog eleni eto gyda Mrs Watkins y gogyddes a Donna Parry yn ei chynorthwyo i ddarparu'r pryd blasus! Ni fyddai'n cinio nadolig heb graceri a diolch i'r Swyddfa Post eleni eto am eu prynu i ni.

**Sioe/perfformiadau Rhithiol**

Penderfynon fel staff a disgyblion na fyddai'r sefyllfa Covid yn amharu dim gyda'r hyn yr oeddwn arfer gwneud adeg yma o'r tymor felly dyma pob dosbarth yn paratoi a chynllunio perfformiadau tra gwahanol!

Cafon ni noson o rannu ein perfformiadau yn ddigidol ar 'Zoom' ac oherwydd yr ymateb ardderchog darlledwyd y perfformiadau dros ddwy noson!

Cafon ni wledd gyda'r dosbarth Derbyn wrth i Miss Cory ffilmio'r plant yn mwynhau edrych/dyfalu a thrafod eitemau cyffrous-am wledd! Roedd yn wych i wrando ar drafodaeth y plant ifancaf ac wrth gwrs y doniolwch yn eu diniweidrwydd!

Penderfynodd Bl 1 a 2 gael Nadolig yng Ngwlad y Rwla gyda'r cymeriadau enwog Rala Rwdins, Rwdlan, Strempan dim ond i enwi rhai! Dyma'r thema fuodd yn ystod y tymor felly roedd hi'n braf i weld y cymeriadau yn dod yn fyw!

Defnyddiodd Bl 3,4,5,a 6 stori enwog 'The Christmas Carol' ac addasu ein fersiwn bersonol i'r Gymraeg. Bl 5 a 6 fuodd yn addasu rhai golygfeydd ac yna Mrs Lynwen Evans fuodd yn brysur yn cael y cwbwl i weithio gyda'i gilydd . Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn ffilmio o flaen y sgrîn werdd, tu allan yn y pentref ac yn cael canu mewn grwpiau bach!

Bydd y profiadau a'r perfformiadau yma yn aros yng nghof ein disgyblion a'u teuluoedd am flynyddoedd lawer!

Diolch yn fawr iawn i'r athrawon ac i'r staff ategol am roi'r cyfle i bob un disgybl i berfformio yn y modd yma. Diolch i Mrs Lynwen Evans oherwydd cafon ni gyd syrpreis hyfryd ar ddiwedd y darlledu - sef clipiau fideo oddi wrth enwogion Cymru i'r disgyblion yn eu cyfarch cyn y Nadolig - mae gan Mrs Evans gysylltiadau arbennig i fedru trefnu hyn!!

**Sioe rithiol Anni Llŷn a Tudur Phillips**

Cafodd y disgyblion gyfle i eistedd yn ôl wrth wylio









sioe byw Anni Llŷn -roedd y disgyblion wrth eu boddau yn gwrando ac yn cyflawni heriau yn ystod y perfformiad!

Parhaodd ddathliadau'r tymor wrth i'r disgyblion dderbyn llu o anrhegion cyn ffarwelio am wyliau haeddiannol!

Diolch yn fawr i deulu Garej Tŷ Mawr am y pecynnau siocled i bawb, Clwb Pêl droed Penrhyn-coch am becyn llawn anrhegion, i PTA yr ysgol am helpu i ddarparu anrheg hyfryd i bob plentyn ac i Llio a Derrick Adams am ddarparu llyfr i bawb am hanes y geni trwy lygaid llygoden fach-maent wir wedi bod yn ddisgyblion lwcus ac rydyn fel ysgol yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth rydyn wedi derbyn wrth ein cymuned arbennig!

**Croesawu Disgyblion Newydd**

Mae ganddon ni griw bach newydd wedi cychwyn gyda ni yn Ionawr-croeso mawr i Miriam, Math, Ryan, Gabriel ac Elena i'r dosbarth Derbyn-mi fyddwch yn hapus iawn yn ein plith.

# Ysgol Pen-llwyn

Gyda'r cyfnod ansicr sydd ohoni, bu'r ysgol gau ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb ar Ragfyr 14eg, ond serch hyn cafwyd digon o amser i ddathlu'r Nadolig cyn hynny!

**Sioe Nadolig Rithiol**

Sioe Nadolig ychydig yn wahanol oedd eleni, gyda disgyblion wedi paratoi ffilm o flaen llaw i'w darlledu'n fyw i deulu a ffrindiau dros zoom ar nos Lun yr 11eg. Cafwyd perfformiad gan ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen o stori'r geni o safbwynt yr anifeiliaid. Roedd yn anodd iawn eleni, gan nad oedd hawl gyda ni i ganu yn dorfol ond roedd disgyblion wrth eu bodd yn perfformio caneuon Nadolig wrth ganu clychau.

Mi wnaeth Cyfnod Allweddol 2 greu rhaglen Heno ei hun, gyda phytiau yn cynnwys bwletin tywydd ar draws y byd ar gyfer taith Sion Corn ar noswyl Nadolig, creu rysáit ar gyfer danteithion y 'Dolig, animeiddiad o stori 'Nadolig Gwyntog Rwdolff' a chystadleuaeth ar gyfer pa dŷ yng Nghapel Bangor oedd â'r addurniadau gorau! Fel ysgol, rydym wedi croesawu'r cyfle gwahanol mae sefyllfa covid 19 wedi cynnig inni, ac mae disgyblion wedi elwa yn fawr ohoni, yn magu eu sgiliau TGCh ac yn dysgu i animeiddio, defnyddio sgrîn werdd, ffilmio a golygu fideo, sgriptio, a pherfformio ar gamera. Gwyliwch bwt o'n ffilm trwy ddilyn y linc yma: https://youtu.be/UP_A8IW6yXY

**Cinio Nadolig a diwrnod Siwmper Dolig**

Diolch unwaith eto eleni i Cathy am baratoi cinio Nadolig blasus ar gyfer disgyblion a staff. Braf iawn oedd cael rhannu pryd 'Dolig yn dorfol i ddathlu'r ŵyl, yn arbennig gan fod nifer ohonom ddim wedi gallu gwneud ar ddiwrnod Nadolig gyda theulu estynedig fel oeddwn wedi cynllunio. Gwisgodd disgyblion siwmper Dolig i godi arian ar gyfer Achub y Plant. Codwyd £40.

**Sioe Nadolig yr Heriau Hud**

Nid oedd modd inni fynd ar drip ysgol i'r theatr eleni, ond daeth y theatr atom ni mewn ffurf Sioe Nadolig yr Heriau Hyd gan Anni Llŷn, Tudur Philips, a Megan Llŷn. Roedd disgyblion wrth eu bodd yn gwylio a chymryd rhan yn yr Heriau Hud er mwyn achub y Nadolig. Syniad hyfryd, a ddaeth a hwyl yr ŵyl i'n ystafell ddosbarth.

**Cynrig Cythreulig**

Wedi mis o ddrygioni, rydym yn ffarwelio gyda Cynrig y Corrach Cythreulig, fu'n dod i sawl helynt yn arwain at y Nadolig yn cynnwys torri wyau ar lawr, cuddio yn y goeden Nadolig, a rholio papur tŷ bach ar hyd y neuadd! Mae staff yn arbennig o falch o weld ei gefn e!

**Diolch**

Diolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon fu wrthi'n brysur yn trefnu raffl a gwobrwyon ar gyfer noson ein cyngerdd Rhithiol. Codwyd bron i £300 i'r ysgol o'r raffl yn unig.

**Croeso**

Croeso mawr i'n disgyblion newydd - sef Phoebe a Branwen – edrychwn ymlaen yn fawr at eich gweld chi dros eich gwersi byw ar teams.

**Gweithio ar y cyd**

Diolch arbennig i'r ddwy gymdeithas rhieni ac athrawon am gyd-weithio i helpu Siôn Corn sicrhau ei fod pob disgybl yn y ddwy ysgol yn derbyn crys-T lliw'r llys y maent yn perthyn iddi yn y maint cywir! Bydd y rhain yn grêt i ddisgyblion ar gyfer Mabolgampau, Eisteddfod Ysgol a gwersi Ymarfer Corff.













# Ysgol Rhydypennau

**Canslo achos Covid**

Yn anffodus, am y tro cyntaf ers blynyddoedd maith, nid oedd hi'n bosib trefnu Cinio Nadolig i henoed yr ardal ar ddydd Sadwrn cyntaf fis Rhagfyr yn neuadd yr ysgol eleni. Dyma'r tro cyntaf i'r digwyddiad unigryw hwn gael ei ganslo ers y sefydlwyd y traddodiad nifer fawr o flynyddoedd yn ôl.

Yn yr un modd, nid oedd hi'n bosib cynnal ein cyngerdd Nadolig eleni, nac ychwaith, llu o weithgareddau arferol y cyfnod gan gynnwys ymweliad Band Pres yr ysgol â Chartref Tregerddan sydd yn draddodiad blynyddol ers yr wythdegau cynnar erbyn hyn. Hen dro!





**Gweithgareddau**

Ta waeth am y sefyllfa gyfredol; fel y cyfeiriwyd at yn y rhifyn diwethaf, fe drefnwyd amryw o weithgareddau difyr i'r plant yn ystod yr wythnos olaf cyn 'Dolig. Ac yn wir i chi, o ddweud jôc i addurno moron; ac o redeg ras Santa i greu addurn Nadolig arbennig, fe gafwyd tipyn o hwyl wrth i'r plant a'r rhieni ymateb yn gadarnhaol iawn i'r holl firi. Efallai y bydd modd sefydlu'r gweithgareddau hyn yn ddigwyddiad blynyddol o nawr ymlaen? Diolch yn fawr i'r holl rieni am gefnogi mor wych!

**Mrs Llinos Bonsall**

Cyfeiriwyd hefyd yn y rhifyn diwethaf at ymddeoliad Mrs Llinos Bonsall, wedi 43 o flynyddoedd o wasanaeth fel athrawes yn ysgolion Ceredigion, a bron 30 mlynedd o'r rheiny fel athrawes Bl.1 yn Ysgol Rhydypennau. Hoffa'r ysgol ddiolch i'r sawl am eu cyfraniadau hael, ac mi fydd yr arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prynu anrheg arbennig i Mrs Bonsall i'w hatgoffa o'r dyddiau da yn Ysgol Rhydypennau. Dymunwn ymddeoliad hir a hapus iddi wedi cyfnod aruthrol o wasanaeth clodwiw i'r ysgol. Mae pob un ohonom yn cario atgofion melys amdani, boed yn ddisgyblion, staff neu rieni. Byddwn bob un yn gweld ei heisiau'n fawr yn y flwyddyn newydd. Pob lwc Mrs Bonsall a diolch yn fawr iawn am bob dim.



**Clwb Cant**

Mae'r amser wedi cyrraedd eto i ymuno â chlwb cant yr ysgol. Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol unwaith eto yn parhau i wahodd rhieni, athrawon a ffrindiau'r ysgol i ymaelodi a'r clwb 100. Mi fydd yr aelodaeth yn parhau, fel llynedd, am flwyddyn gan ddechrau ym mis Mawrth a gorffen ym mis Rhagfyr.

Bydd hi'n angenrheidiol i bob aelod dalu tâl aelodaeth blynyddol o ddeg punt a fydd yn talu am gost pob cyfle i ennill yn ystod y cyfnod. Cyfanswm yr holl arian sef gwobrau'r flwyddyn fydd pum can punt.

Bydd yr holl elw yn mynd at bwyllgor CRhA ac felly tuag at yr ysgol. Mi fydd y gwobrau misol fel a ganlyn:

1af - £25; 2il - £15; 3ydd - £10

Os am ymuno â'r clwb cysylltwch â Delyth Morgan ar 01970 820656








# Tasg y Tincer



Elinor

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd! Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich gwyliau Nadolig a bod Siôn Corn wedi bod yn hael, fel arfer. Diolch i chi am liwio'r *menorah* y tro diwetha: Elis Jones Jackson, Bow Street; Iestyn, Carian a Tirion Evans, Y Borth; Elinor Jenkins, Y Borth; Noah Fox, Penrhyn-coch; Heledd Rees, Aberystwyth.

Dy enw di, **Elinor**, ddaeth o'r het yn gynta – da iawn ti, a da iawn **bawb** am liwio mor hyfryd. Doedd dim modd hel calennig eleni, ond dwi'n siŵr bod sawl un ohonoch wedi anfon eich dymuniadau da at eich teulu a'ch ffrindiau yn eich cartre, ac ar Zoom neu Skype! Ydech chi'n gwybod geiriau'r pennill hwn?:

"Dydd calan yw hi heddiw,
Rwy'n dyfod ar eich traws
I ofyn am y geiniog,
neu grwst o bara a chaws..."

Rhowch gynnig ar ddweud 'Blwyddyn Newydd Dda' yn ieithoedd y gwledydd Celtaidd hyn:
Iwerddon: Athbhliain faoi mhaise dhuit
Alban: Bliadhna Mhath Ùr
Cernyw: Bledhen Nowyth Da
Ynys Manaw: Blein Vie Noa
Llydaw: Bloavezh Mat

Beth am liwio llun y plant yn mwynhau'r cyffro a'r dathlu wrth groesawu 2021? Anfonwch eich lluniau drwy ebost (anwenmai@hotmail.co.uk) neu drwy'r post at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Chwefror 1af.... Ta ta tan toc.



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

**Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch**
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD,
CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009

*Rhif 435 | Ionawr 2021*